

Crisis

**Gyda'n gilydd
byddwn yn
rhoi terfyn ar
ddigartrefedd**

Talwch Digon at y Gost:

**Ymgyrch Crisis dros adfer cyfraddau
Lwfans Tai Lleol i atal digartrefedd**




Beth yw ymgyrch Talwch Digon at y Gost?

Mae digartrefedd yn sarhad na ddylai unrhyw un yn ein cymdeithas orfod ei wynebu. Mae Crisis yn galw ar Lywodraeth y DU i adfer cyfraddau Lwfans Tai Lleol digonol i dalu cost rhenti ac atal miloedd o bobl rhag mynd yn ddigartref.

Mae colli tenantiaeth breifat yn un o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros fynd yn ddigartref. Mae pobl sydd mewn swyddi â chyflogau isel, ac yn methu â gwneud dim ynglŷn â hynny, neu'n wynebu gostyngiad annisgwyl yn eu hincwm ar ôl colli eu gwaith neu salwch, yn mynd yn ddigartref oherwydd bod cyfraddau Lwfans Tai Lleol, sy'n cael eu hadnabod yn fwy cyffredin fel Budd-dal Tai, wedi gostwng ymhell islaw rhenti drwy Brydain.

Mae ein hymchwil wedi dangos bod toriadau olynol i'r budd-dal hwn yn golygu bod 94% o ardaloedd ym Mhrydain, un ym mhob pump neu llai o gartrefi rhent yn anfforddiadwy o dan gyfraddau Lwfans Tai Lleol i bobl sengl, cyplau neu deuluoedd bach sydd angen budd-dal tai. Mae pobl yn ei chael hi'n anodd talu eu rhent a thalu am hanfodion fel bwyd a biliau – yn yr achosion gwaethaf, mae hyn yn achosi digartrefedd. A phan fo digartrefedd yn digwydd, all pobl ddim dod o hyd i gartref arall oherwydd lefel isel cyfraddau Lwfans Tai Lleol.

Ni ddylai unrhyw un orfod byw fel hyn. Mae datrys yr argyfwng yn y tymor hir yn golygu adeiladu cartrefi cymdeithasol mwy



Ardaloedd gyda'r bwlch mwyaf rhwng LTLL a chost rhentu preifat lleol

fforddiadwy. Ond bydd hyn yn cymryd amser. Yn y cyfamser, rhaid i ni roi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i gadw eu cartref ac osgoi digartrefedd. Dyna pam ein bod yn galw ar Lywodraeth i roi blaenoriaeth uchel i fuddsoddi mewn cyfraddau Lwfans Tai Lleol mewn penderfyniadau gwariant a wneir cyn hir.

Pam ydym ni'n ymgyrchu?

Dylai Budd-dal Tai fod yn un o'r ffyrdd cyflymaf i atal pobl rhag mynd yn ddigartref. Fodd bynnag, ar ôl cyfres o doriadau, cafodd cyfraddau Lwfans Tai Lleol eu rhewi am bedair blynedd. Bydd y cyfnod hwn yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn nesaf. Rhaid i Lywodraeth benderfynu ar fyrder faint o arian

y bydd yn ei fuddsoddi mewn cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar ôl y pwynt hwn.

Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ystyried ei blaenoriaethau gwario hirdymor. Hwn yw ein cyfle gorau i adfer cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar gyfer y traean rhataf o renti – gan roi cymorth yn syth i bobl gadw eu cartrefi.

Mae adroddiad newydd Crisis yn dangos y bydd buddsoddiad digonol mewn cyfraddau Lwfans Tai Lleol ym mhenderfyniadau gwariant arfaethedig y llywodraeth yn atal miloedd o bobl rhag mynd yn ddiartref, ac yn codi miloedd yn fwy o deuluoedd a phlant allan o dlodi;

- Mae angen buddsoddiad o £3.3 biliwn dros dair blynedd i adfer cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar gyfer y traean rhataf o renti
- Byddai hyn yn atal mwy na 6,000 o deuluoedd ac unigolion rhag mynd yn ddiartref
- Byddai mwy na 32,000 o deuluoedd ac unigolion yn cael eu codi allan o dlodi, yn cynnwys 35,000 o blant.

Bydd atal digartrefedd a chodi pobl allan o dlodi'n sicrhau buddion ehangach o £5.5 biliwn, yn cynnwys lleihau'r defnydd o wasanaethau digartrefedd a gwasanaethau'n ymwneud â digartrefedd fel iechyd. Bydd hefyd yn arwain at arbedion o £124 miliwn yn cynnwys defnyddio llai ar lety dros dro. Ar hyn o bryd mae Cynghorau'n cael eu gorfodi i ddefnyddio llety dros dro costus i letya pobl sydd wedi'u dal yng nghylch digartrefedd, oherwydd diffyg opsiynau tai fforddiadwy. Mae hyn yn aml yn gostus, gyda chynghorau'n gwario bron i £1 filiwn y flwyddyn ar lety dros dro yn Lloegr yn unig, gan adael llawer gormod o bobl heb gartrefi sefydlog a diogel, am gost enfawr.

Beth ddylai digwydd?

Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ystyried ei blaenoriaethau gwario hirdymor. Mae Crisis yn galw ar Lywodraeth y DU i adfer cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar gyfer y traean rhataf o renti (yr 30 canradd). Awgrymir ymchwil gan Alma Economics, a gomisiynir gan Crisis, y bod angen buddsoddiad o £820 miliwn ar gyfer 2020/21 ac ymrwymiad i fuddsoddi £3.3 biliwn dros y tair blynedd nesaf.

Yn y tymor hir, gwyddom mai tai cymdeithasol yw'r opsiwn mwyaf cost effeithiol o ddarparu tai sefydlog a diogel i bobl ar incwm isel. Ond gyda'n hymchwil yn dangos bod angen i ni adeiladu 90,000 o gartrefi cymdeithasol y flwyddyn drwy Brydain am 15 mlynedd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn y galw am dai cymdeithasol, ni allwn fforddio anwybyddu'r rôl allweddol y dylai Budd-dal Tai ei chwarae mewn atal a rhoi terfyn ar ddiartrefedd yn syth.

Beth allwch chi ei wneud i helpu?

Mae angen eich cymorth arnom i sicrhau bod Budd-dal Tai ar frig agenda'r llywodraeth yn y penderfyniadau a wneir cyn hir ynglŷn â gwariant. I wneud hyn, dim ond un funud fydd yn ei gymryd i gysylltu â'ch AS lleol trwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein a gofyn iddynt ysgrifennu at y Canghellor i sicrhau'r buddsoddiad y mae ei angen yn fawr ar gyfer cyfraddau Lwfans Tai Lleol. Gweithredwch nawr i atal miloedd o deuluoedd ac unigolion rhag mynd yn ddiartref ar: www.crisis.org.uk/coverthecost

Mae angen cymaint â phosibl o bobl i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, felly helpwch ni i ledaenu'r gair i'ch ffrindiau a'ch teulu a rhannwch yr ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol.

Trydariadau a awgrymir:

Pe byddai Llywodraeth y DU yn buddsoddi mewn budd-dal tai sy'n sicrhau **#CovertheCost** rhent, galla'i atal miloedd o bobl rhag colli eu cartrefi – ac yn codi miloedd mwy, yn cynnwys dros 35,000 o blant, allan o dlodi. Ysgrifennwch at eich AS nawr: bit.ly/2VtaRIA

Dylai fod gan bawb yr hawl i gartrefi sefydlog, fforddiadwy. Ond ar hyn o bryd, mae pobl y mae angen cymorth arnynt yn ei chael hi'n anodd talu eu rhent. Gofynnwch i'ch AS alw am fudd-dal tai sy'n sicrhau **#CovertheCost** rhent gan ryddhau pobl o fygythiad digartrefedd bit.ly/2VtaRIA

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut i gymryd rhan, cysylltwch â:
Sorana Vieru, Uwch Swyddog Ymgyrchoedd
Sorana.Vieru@crisis.org.uk / **020 7426 3833**